



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Mehefin 27 2017 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday June 27 2017 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Myrddin Owens, Meg Roberts, Mike Roberts, Gerald Belanger, John Byast, Daniel Ap Eifion Jones, Liz Wood, Julie Hughes, Gina Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), aelodau o'r gymuned/*members of the community.*

Ymddiheuriadau/Apologies: Gordon Warren, Dafydd Roberts, Helen Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Richard Jones – materion cynllunio / *planning matters*

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Meg Roberts, eilio Myrddin Owens. Cynnigwyd a chymeradwywyd gwelliant i'r cofnodion fel a ganlyn:

'Fe gymerodd y Cyngor egwyl o bum munud cyn parhau gyda'r cyfarfod gan fod aelod o'r cyhoedd yn tarfu ary cyfarfod'.

Teimlwyd nad oedd y geirio gwreiddiol yn esbonio'r rheswm am yr egwyl.

The minutes were confirmed a true record. Proposed Meg Roberts; seconded Myrddin Owens.

An improvement to the minutes was suggested and agreed as follows:

'The meeting was adjourned for five minutes before continuing with the agenda due to a member of the public causing disturbance.'

It was felt that the original wording did not explain the reasoning behind the break.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Ffens ym Mhorth Amlwch/Fence in Amlwch Port

Nodwyd nad oedd y paneli ffens ger y toiledau wedi eu symud fyth er bod cyswllt wedi ei wneud a'r perchnogion. Nodwyd pryder bod pobl yn eu defnyddio i ddringo ar ben yr adeilad. Cytuno trefnu eu symud a hysbysu Grwp Cymunedol Porth Amlwch i ble maent wedi symud.

it was noted that the fence panels by the toilets in Amlwch Port were still to be moved even though contact had been made with the owners. It was noted that people were using them to climb on to the building roof. Agreed to arrange for them to be moved and notify Amlwch Port Community group where they have been moved to.

4.2 Maes Parcio Porth Llechog/Bull Bay Car Park

Cadarnhaodd Richard Jones ei fod wedi siarad a'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor Sir a'i fod wedi cael copi o'r wybodaeth a gedwir gan y gofrestrfa tir. Cadarnhawyd mai'r Cyngor Sir sydd

berchen ar y tir ond nid oes gwybodaeth am ei ddefnydd. Cytuno edrych i fewn i'r mater ymhellach.

Richard Jones confirmed that he had spoken to the relevant officers in the County Council and that he had been given a copy of the land registry entry. It was confirmed that the land is owned by the County Council but that there is no information on land use. Agreed to look into the matter in more detail.

4.3 Llyfrgell/Library

Mae'r Cyngor Sir wedi cyhoeddi eu bod yn ymgynghori eto ar ddyfodol y llyfrgelloedd. Mae cyfres o ddiwyddiadau i'w cynnal ar draws yr ynys i roi cyfle i bobl gael trafod eu pryderon. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn Medi 22, 2017. Cadarnhawyd bod y wybodaeth yngyn a'r ymgynghoriad a'r sesiynnau gwybodaeth wedi ei anfon ymlaen i'r holl aelodau drwy ebost er gwybodaeth. Bydd cyfle i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd pryder nad oedd dyfodol y llyfrgelloedd wedi ei drafod gan y Cynghorwyr Sirol newydd yn dilyn yr etholiad.

Nododd Gareth Roberts bod peth gwaith wedi ei wneud gan Menter Mon a thrafodaethau wedi dilyn gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd bod llyfrgell Amlwch yn boblogaidd, ac na fuasai'n deg disgwyl i bobl Amlwch ariannu costau cynnal llyfrgell ardal (buasai golygu codi'r dreth yn sylweddol).

The County Council have announced that they are consulting again on the future of the libraries. A series of events are to take place across the island, giving people an opportunity to discuss their concerns. A response to the consultation is required by September 22nd 2017. It was confirmed that the information regarding the consultation and information sessions had been emailed to all members for information. There will be an opportunity to discuss further at the next meeting.

Concerns were noted that the future of the libraries had not been discussed by the new County Councillors following the election.

Gareth Roberts noted that some work had been done by Menter Mon and that discussions with the County Council had followed. It was noted that Amlwch library was popular and that it would be unfair to expect the people of Amlwch to fund the area facility (it would result in a substantial increase in rates).

4.4 Llygru/Flytipping

Nodwyd bod yr ysbwriel ar y Mynydd wedi ei glirio bellach. Roedd pryderon fodd bynnag bod pobl ifanc yn cwrdd ger y gilfach i yfed alcohol. Mae hyn yn amlwg o'r bagiau a chaniau/poteli sydd yn cael eu gadael yn fler ym mhobman.

It was noted that the littering on the Mountain had by now been cleared. There were concerns however that young people were meeting by the creek to drink alcohol. This is evident from the bags and cans/bottles being left untidily everywhere.

4.5 Gwasanathau'r Heddlu/Police Service

Daw ymateb gan y Comisiynydd a'r Prif Arolygydd erbyn hyn. Nodwyd siom yn eu hymateb a theimlwyd byddai'r gwasanaeth yn gallu cael ei gynnal mewn ffordd llawer iawn mwy effeithlon a llai costus. Cytuno gwahodd y Comisiynydd a/neu'r Prif Arolygwr i gyfarfod ag Aelodau'r Cyngor i drafod pryderon yr ardal.

A response has been received by both the Commissioner and the Chief Inspector. Members noted their disappointment and felt that the service could be offered in a more efficient and cost-effective way. Agreed to invite the Commissioner and/or the Chief Inspector to meet with the Council members to discuss the area's concerns.

4.6 Cyflogaeth Ysgolion/Employment in Schools

Dim ddiweddariad hyd yma. Gofynnwyd i'r Cyngorwyr Sirol wneud ymholiadau pellach cyn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Sirol oedd yn bresennol os oeddent yn gallu

cadarnhau torriadau i gyllideb ysgolion ond codiad yn eu cyflogau fel aelodau etholedig. Nid oedd Richard Griffiths nac Richard Jones yn ymwybodol o hynnu ac yn gallu ymateb.

No update as yet. The County Councillors were asked to make further enquiries prior to the next meeting. The County Councillors present were asked if they could confirm that the education budget had been cut whilst the salary for elected members had been increased. Neither Richard Griffiths nor Richard Jones was aware and able to respond.

4.7 Parcio mewn Stadau Tai/Parking in Housing Estates

Cadarnhaodd Richard Jones ei fod, ynghyd ag Richard Griffiths wedi bod mewn cysylltiad a'r adran dai a bod adain gofal a thrwsio yn edrych ar opsiynau posib i ychwanegu at y nifer o lefydd parcio sydd ar gael.

Richard Jones confirmed that he, along with Richard Griffiths, had been in contact with the housing department and that their maintenance department were looking at options to increase the number of available parking spaces.

4.8 Gor-yrru/Speeding

Mae Richard Griffiths mewn cysylltiad a'r heddlu sydd am drefnu bod swyddogion perthnasol yn ymweld ag Amlwch a Phorth Llechog yn reolaidd.

Richard Griffiths is in contact with the police who are to arrange for the relevant officers to visit Amlwch and Bull Bay on a regular basis.

4.9 Safle Bws Porth Llechog/Bull Bay Bus Stop

Mae swyddogion y Cyngor Sir wedi cadarnhau eu bod yn edrych ar wahanol opsiynau. *County Council officers have confirmed that they are looking at different options.*

4.10 Arwyddion/Signage

Mae Rehau wedi cytuno gosod arwydd newydd ger y gyffordd i'r parc busnes; mae'r Cyngor Sir hefyd am osod arwyddion ychwanegol. Bydd angen i'r Cyngor Sir weithredu cynllun cynnal a chadw er mwyn sicrhau nad oes gordyfiant yn cuddio'r arwyddion.

Rehau have agreed to erect a new sign by the junction to the business park; the County Council will also erect additional signs. The County Council will need to operate a maintenance programme to ensure that overgrowth doesn't hide the signs.

5 Pwyllgorau Allanol/External Meetings

5.1 Trefi Mon

Cafwyd grynodedb o drafodaethau diweddaraf y grwp gan Myrddin Owens. Bydd copi o'i adroddiad i'w gynnwys gyda'r cofnodion er gwybodaeth.

A summary was given of the group's latest discussions by Myrddin Owens. A copy of the report will be included with the minutes for information.

5.2 Menter Mon

Cafwyd wybod gan Gareth W Roberts bod trafodaethau gyda swyddogion Menter Mon er mwyn cyflwyno cais am arian am brosiect effeithlonrwydd ynni cymunedol ar draws yr ardal (dros £100k). Bydd ddiweddariad eto pan/os fydd unrhyw ddilyniant.

Gareth W Roberts noted that discussions are ongoing with Menter Mon officers to present an application for funding for a community energy efficiency project across the area (over £100k). Updates will be provided as/when any progress is made.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd bod y pwyllgor wedi cwrrdd a chynrychiolwyr Grwp Sgowntiaid Amlwch oedd yn gofyn am bryles o 21 mlynedd ar yr adeilad er mwyn gallu csisio am grantiau (mae'r brydles gyfredol yn dirwyn i ben ddiwedd Awst 2017). Mae angen cadarnhau yn gyntaf os yw'r fath les yn bosib yn gyfreithiol. Cyngor Llawn yn cytuno gyda'r pryddles mewn egwyddor.

Nodwyd bod angen cyfarfod gyda'r Clwb Pel Droed cyn gynted a phob i drafod eu dyfodol yn Lon Bach.

Yng ngyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn, cytunwyd byddai'r pwyllgor cyllid yn edrych ar, ac yn adolygu Polisi Iaith y Cyngor. Nodwyd hefyd bod angen edrych ar bolisi'r Cyngor yn ymwneud a chefnogaeth ariannol. Mae angen i'r broses a'r rheolau gael eu ffurfioli h.y. bod gofyn i grwpiau ardal Amlwch am eu cyfansoddiad, eu cyfrifon a'u hymrwymiad i'r iaith.

Trafodwyd nifer o faterion yn ymwneud a grwp #CaruAmlwch a'u prosiectau diweddaraf. Cynnigwyd bod y pwyllgor cyllid (gan gynnwys Mike Roberts, cadeirydd pwyllgor parciau a mannau agored) yn gwahodd cynrychiolwyr #CaruAmlwch i gwrdd a hwy i drafod ymhellach ac adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn yn y cyfarfod nesaf.

Cymeradwywyd nifer o daliadau achlysurol. Nodwyd bod y pwyllgor wedi enwebu Liz Wood yn lofnodwr banc ynghyd a Gareth Roberts, Myrddin Owens a'r clerc gan nad oedd Bob Whitfield yn aelod o'r cyngor bellach. Cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. It was noted that the committee had met with representatives of the Amlwch Scouts Group who are asking for a 21 year lease on the building in order to be able to apply for grant funding (the current lease expires in August 2017). Whether such a lease is legally possible needs to be confirmed. Full Council agreed with a lease in principle.

It was noted that a meeting is required with the Football Club as soon as possible to discuss their future at Lon Bach.

At the last Full Council meeting it was agreed that the finance committee would look at and review the Welsh Language Policy. It was noted that there is also for the procedures for providing financial support to be formalised i.e. asking Amlwch groups for their constitution, accounts and commitment to the Welsh Language.

A number of matters regarding #CaruAmlwch's project proposals were discussed. It was proposed that the finance committee (to include Mike Roberts, chair parks and open spaces committee) invite representatives of #CaruAmlwch to meet with them to discuss further and report back at the next meeting.

A number of occasional payments were approved, It was noted that the committee had nominated Liz Wood a bank signatory along with Gareth Roberts, Myrddin Owens and the clerk as Bob Whitfield was no longer a member of the council. Full Council approved.

7 Adroddiad Pwyllgor Cynllunio/Planning Committee Report

Nodwyd bod y pwyllgor wedi cwrdd i drafod y ceisiadau a gyflwynwyd. Bydd copi o gofnodion y cyfarfod hwnw i'w hanfon allan i'r aelodau gyda chofnodion y Cyngor Llawn.

It was noted that the committee had met to discuss the applications presented. A copy of the minutes will be sent out to the members with a copy of the full council minutes.

8 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces Committee Report

Cafwyd grynodedb gan Mike Roberts o'r cyfarfod ble ymwelwyd a nifer o leoliadau'r Cyngor. Nodwyd bod rhestr o waith sydd ei angen wedi i'w basio ymlaen i'r bobl perthnasol. Gobeithir bydd ymweliadau o'r fath yn rhywbeth mwy rheolaidd o hyn allan.

Argymhelliant y pwyllgor oedd nad oedd y Cyngor yn cynnal cystadleuaeth garddio eleni, ac yn ymgynghori a'r gymuned cyn ail-lansio cystadleuaeth o'r newydd yn 2018. Nid oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor Llawn.

Cydnabyddwyd bod nifer o brosiectau ar y gweill gan #CaruAmlwch a bod rhai o'r materion a godwyd yn faterion i'r pwyllgor cyllid a'r Cyngor Llawn eu trafod ymhellach.

Cynnigwyd bod Mike Roberts ar ran y pwyllgor yn ffurfio grwp ar 'facebook' er mwyn hyrwyddo

gwaith da y Cyngor a rhannu lluniau o'r ardaloedd. Ni fuasai cyfle i bobl allannol gyfrannu tuag at y dudalen wybodaeth. Nid oedd gwrthwynebiad i hyn.

Mike Roberts gave an overview of the meeting where a number of the Council's sites were visited. It was noted that a list of works required had been forwarded to the relevant personnel. It is hoped that such site visits will become a regular occurrence.

The committee proposed that the Council did not hold the Gardening Competition this year, and that the community is consulted before re-launching the competition in a new format for 2018. The Full Council had no objection.

It was acknowledged that #CaruAmlwch had a number of projects in the pipeline and that some of the matters raised required further discussion by the finance committee and Full Council.

It was proposed that Mike Roberts on behalf of the committee establish a group on facebook to promote the Council's good work and share photos of the different areas. External contribution to the page will not be possible. There was no objection to this.

9 Wylfa Newydd

Nodwyd bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi cwrdd tair gwaith dros y mis diwethaf er mwyn trin a thrafod ymgynghoriad PAC3 Wylfa Newydd. Mae yr un pryderon yn parhau ers y cychwyn cyntaf. Nodwyd diffyg gwybodaeth a manylder yn nogfennau'r ymgynghoriad diwethaf.

It was noted that the North Anglesey Councils Partnership have met three times over the last month to consider and discuss the Wylfa Newydd PAC 3 Consultation. The same concerns prevail from the onset. The lack of information and detail in the consultation documents was noted.

10 Toileddau Cyhoeddus/Public Toilets

Cydnabyddwyd llythyr y Cyngor Sir yn cynnig toiledau cyhoeddus i'r Cyngor Tref yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhawyd nad oedd y Cynghorwyr Sir wedi trafod y mater ers yr etholiad. Gofynnwyd i Richard Jones gadarnhau ar fryder os oes angen ymateb i'r Cyngor Sir erbyn 3/7/2017 fel yng nghynnwys y llythyr. Bydd Richard Jones a Richard Griffiths yn gwneud ymholiadau pellach ac yn adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn cyn gynted a phosib.

The letter from the County Council offering the public toilets to the Town Council was acknowledged at the last meeting. It was confirmed that the County Councillors were yet to discuss the matter since the election. Richard Jones was asked to confirm as soon as possible if a response is required by 3/7/2017 as noted in the letter. Richard Jones and Richard Griffiths will make further enquiries and report back to the Full Council as soon as possible.

11 Gohebiaeth/Correspondence

11.1 Bob Whitfield

Daw llythyr gan y cyn-gynghorydd yn diolch i'r Cyngor am y croeso a'r gefnogaeth tra yn aelod, ac yn dymuno'r gorau i'r Cyngor i'r dyfodol.

A letter from a past member of the Council thanking the members for the welcome and support whilst a member of the Council, and wishing the Council the best for the future.

11.2 Pencampwr Iaith/Welsh Language Champion

Cafwyd gais gan Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned Mon i enwebu pencampwr yr iaith Gymraeg. Enwebwyd Myrddin Owens ar ran y Cyngor Tref.

A request from the Anglesey Town and Community Councils Forum to nominate a Welsh Language Champion. Myrddin Owens was nominated on behalf of the Town Council.

11.3 Cylch Meithrin Amlwch

Daw cais gan y Cylch am gefnogaeth gan yr aelodau gan fod rhai o'r pwyllgor yn sefyll i lawr. Roedd Liz Wood yn fodlon helpu fel unigolyn i gadw'r Cylch ar agor.

A request to the members from the Cylch for support from the members as some of the committee are standing down. Liz Wood was happy to help as an individual in order to keep the Cylch open.

11.4 Diwrnod Lleng Brydeinig/Armed Forces Day

Daw cais gan Tony Fitzmaurice i gynnal y diwrnod, sydd i'w gynnal ym Mon yn Amlwch yn 2018. Mae Gareth Roberts wedi ymateb i'r cais i gadarnhau y bydd yn dod a'r cais at sylw'r Cyngor Llawn a gofynnwyd i'r Cynghorwyr Sirol wneud ymholiadau. Roedd y Cyngor Llawn yn gefnogol o'r syniad. Deallwyd gan Richard Jones ei fod ar ddeall bydd llong firwrol yn dod i Gaergybi ac mai yno fydd y dathliadau, cynnigodd efallai byddai posib cael digwyddiad llai yn Amlwch.

A request from Tony Fitzmaurice to hold the celebrations, which are to be held on Anglesey, in Amlwch in 2018. Gareth Roberts has responded to the request stating that he would bring the letter to the attention of the Full Council, and the County Councillors were requested to make enquiries. The Full Council were supportive of the idea. It was understood from Richard Jones that he was of the understanding that a military ship is to come to Holyhead and that the celebrations will be held there, he proposed that it may be possible to hold a smaller scale event in Amlwch.

12 Cynnigion yn unol a'r atodlen/Motions as per appendix

Daw dau cynnig ger bron y Cyngor ac fe esboniwyd pob un yn ei dwrn gan Myrddin Owens. *Two motions were put to the Council and each one explained in turn by Myrddin Owens:*

12.1 Pwyllgor Polisi/Policy Committee

Cynnigwyd bod y Cyngor yn ffurfio pwyllgor i weithredu mewn argyfwng ac i'r pwyllgor gael yr hawl i weithredu ar ran y Cyngor. Cynnigwyd gwelliant i'r cynnig gwreiddiol y dylai cadeiryddion pob is-bwyllgor fod yn aelod o'r Pwyllgor Polisi. Cytuno byddai'r pwyllgor yn adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn ar unrhyw benderfyniad a wnaed mewn argyfwng.

Cynnig ffurfio pwyllgor gan gynnwys cadeiryddion yr holl is-bwyllgorau, Myrddin Owens, eilio John Byast. Cynnig peidio gwneud penderfyniad a pheidio ffurfio pwyllgor o'r fath - Richard Jones. Cafwyd pleidlais ar y cynnig – O blaid ffurfio pwyllgor 6; Yn erbyn 6, gyda pleidlais fwrw'r Cadeirydd, cymeradwywyd y cynnig.

It was proposed that the Council form a committee to act in an emergency and to have powers to act on behalf of the Council. It was proposed, as an improvement to the original proposal, that the chairs of all the sub-committees were members of the policy Committee. Agreed that the committee would report back to the Full Council on any decision(s) made in an emergency.

It was proposed that the Council form a Policy Committee to include the chairs of all sub-committees. Proposed Myrddin Owens, seconded John Byast. Richard Jones proposed that no decision was taken and such a committee was not formed. A vote was taken - in favour of establishing a committee 6, against 6; with the Chair's casting vote the proposal was approved.

12.2 Polisiau Cyngor Sir/County Council Policies

Cynnigwyd gofyn i'r Cynghorwyr Sir yn cael adroddiad llawn ar bolisiau CSYM i ddenu gwaith ac adfywio Amlwch. Cytuno byddai Richard Jones yn cysylltu a Dylan Williams (Adran Datblygu Economaidd) am y wybodaeth perthnasol.

It was proposed to ask the County Councillors for a full report on IACC policies to bring work to, and regenerate Amlwch. Agreed that Richard Jones would contact Dylan Williams (Economic development Dept.) for the relevant information.

13 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

13.1 Nat West

Nodwyd bod y banc yn cau diwedd yr wythnos. Nodwyd siom mai dim ond am 45 munud yr wythnos oedd y gwansaanaeth symudol ar gael yn y dref. Cytuno cysylltu a'r banc i drio trefnu cyfarfod cyn gynted a phosib.

It was noted that the branch closes at the end of the week. Disappointment was noted that the

mobile service only visited the town for 45 minutes a week. Agreed to contact the bank to try and arrange a meeting as soon as possible.

13.2 Palmentydd/Pavements

Mae cerbydau yn parcio ar balmentydd yn creu problemau difrifol i bobl anabl a rhieni gyda phlant ifanc. Nodwyd bod parcio ger yr Ysgol Gynradd hefyd yn broblem. Cytuno cysylltu a'r heddlu i godi ymwybyddiaeth.

Vehicles parking on pavements are making it difficult for disabled people and those with young children. It was noted that parking by the Primary School was also an issue. Agreed to contact the police to raise awareness.

13.3 Stryd Salem Street

Daw ebost gan Gordon Warren yn nodi pryderon am ddiogelwch y system un ffordd. Mae'r mater hefyd wedi bod yn destyn trafodaeth ar y we. Gofynnwyd i Richard Jones a Richard Griffiths gysylltu a'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor Sir i gael adolygu'r trefniadau parcio yn yr ardal gan fod pob yn gyrru yn ganol y lon ers i'r system un ffordd ddod i rym.

An email from Gordon Warren was received noting concerns regarding the one way system. The matter has also been a subject of discussion on the web. Richard Jones and Richard Griffiths were asked to contact the relevant officers at the County Council to review the parking arrangements in the area as people are driving in the middle of the road since the one way system has been adopted.

13.4 Baw Cwn/Dog Fouling

Nodwyd bod pobl yn rhy ddiog i godi baw eu cwn, Nodwyd nad oedd digon o finiau baw cwn yn yr ardal i annog pobl i'w defnyddio. Deallwyd bod posib defnyddio unrhyw fin erbyn hyn, Richard Jones i wneud ymholiadau a chadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

It was noted that some people are too lazy to clean up after their dogs. It was noted that there were not sufficient dog-poo bins to encourage people to use them. It was understood that any street bin can now be used. Richard Jones would make enquiries and confirm at the next meeting.

13.5 Cyhoeddi Cyfarfodydd ar y We/Livestreaming Meetings

Gofynnwyd a fyddai posib cyhoeddi cyfarfodydd y Cyngor yn fyw ar y we yn debyg i'r Cyngor Sir. Cytuno byddai posib edrych ar gost ac oblygiadau cyfreithiol y fath gynig.

It was asked whether it would be possible to livestream the Council meetings similar to the County Council. Agreed to look at the cost and legal implications of such a proposal.

13.6 Llwybrau Cyhoeddus/Footpaths

Cafwyd adroddiad gan Daniel Jones am bryder a nodwyd yn wreiddiol gan Meg Roberts. Mae pobl ifanc yn defnyddio'r llwybr o Faes Salem tuag at Awelfryn ar eu beiciau ac mae pryderon dwys am ddiogelwch cerddwyr hyn sydd hefyd yn defnyddio'r llwybr. Cynnigwyd bod y Cyngorwyr Sirol yn cysylltu a'r adran dai i ofyn iddynt osod giatiau pob pen i'r llwybr.

Daniel Jones gave a report on a concern originally raised by Meg Roberts. Young people are using the footpath from Maes Salem to Awelfryn on their bikes and there are grave concerns about the safety of elderly walkers also using the path. It was proposed that the County Councillors contact the housing department to ask that they install gates either side of the path.

14 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Gorffennaf 25 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor. *The next meeting will take place on Tuesday evening July 25th at 7pm in the Council Chamber.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.25 / *The meeting closed at 20.25.*

CET06/2017